

Cyfarfod:	Bwrdd Perfformiad Strategol
Lleoliad:	Pencadlys SCC119
Dyddiad:	5 Tachwedd 2024
Amser:	10y.b-1y.p

Yr Aelodau:	Y Comisiynydd Heddlu a Throseddau, Dafydd Llywelyn (CHTh) Prif Gwnstabl, Dr Richard Lewis (PG) Dirprwy Brif Gwnstabl, Ifan Charles (DBG) Prif Gwnstabl Cynorthwyol, Gary Phillips (PGC) Cyfarwyddwr Datblygu Pobl a'r Sefydliad, Linda Williams (CDPaS) Prif Weithredwr SCHTh, Carys Morgans (PW) Cyfarwyddwr Comisiynu a Phartneriaeth SCHTh, Alison Perry (CCaPh) Pennaeth Strategaeth a Pholisi SCHTh, Claire Bryant (PSaPh)
Hefyd yn bresennol:	Pennaeth yr Uned Gwella Gwasanaethau, Yr Uwch-arolygydd Dros Dro Louise Harries (LH) Swyddog Staff, PS Marc Davies (MD) Cymorth Gweithredol SCHTh, Sophie Morgan (SM)
Ymddiheuriadau:	Prif Swyddog Cyllid SCHTh, Beverley Peatling (PSC SCHTh) Prif Swyddog Cyllid Dros Dro SCHTh, Nicola Davies (PSCDD) Cyfarwyddwr Cyllid, Edwin Harries (CC)

1. Ymddiheuriadau a chyflwyniadau

Croesawodd y CHTh bawb i'r cyfarfod a derbyniwyd cyflwyniadau gan fynychwyr y cyfarfod.

Esboniodd y CHTh mai dyma oedd cyfarfod cyntaf y Bwrdd Perfformiad Strategol o dan y strwythur llywodraethu newydd.

Nododd y CHTh fod sefyllfa ariannol fanwl yr heddlu yn cael ei ddarparu'n rheolaidd yng nghyfarfodydd y Bwrdd Plismona ac felly nid oes angen ailadrodd hyn yn y fforwm hwn. Fodd bynnag, ar y cyd â'r Prif Swyddog Cyllid, byddai'n fuddiol cael adroddiad cryno ar brif faterion ynghylch asedau, enillion ar fuddsoddiadau, a safbwynt mwy strategol ar y cyllid i'w gyflwyno i'r bwrdd hwn yn y dyfodol.

Cododd y Prif Gwnstabl gyhoeddiad diweddar gan y canghellor ynghylch y gyllideb a'r cynnydd mewn cyfraniad yswiriant gwladol a fydd yn rhoi

pwysau cost ychwanegol ar yr heddlu. Dywedodd y CHTh fod y cyhoeddiad am y gyllideb a dosbarthu cyllid gan y Swyddfa Gartref wedi'i godi gyda'r Gweinidog Plismona yng nghyfarfod Cymdeithas Comisiynwyr Heddlu a Throseddau a fynychodd y CHTh yr wythnos flaenorol.

2. Cylch Gorchwyl y Bwrdd Perfformiad Strategol a Threfniadau Llywodraethu Newydd

Ystyriodd a chymeradwyodd y bwrdd y cylch gorchwyl ar gyfer y Bwrdd Perfformiad Strategol. Dywedodd y CHTh y gallai aelodau o'r Cynllun Heddlu a Throseddau fod yn bresennol fel arsylwyr mewn cyfarfodydd yn y dyfodol.

Cwestiynodd y Prif Gwnstabl sut y byddai diweddariadau sensitif gweithredol a allai gael eu darparu yn ystod y cyfarfodydd yn cael eu rheoli gyda recordiad byw.

Dywedodd y CHTh y byddent yn cael eu harwain gan brif swyddogion ynghylch pa fanylion y gellir eu rhannu o fewn fforwm cyhoeddus. Cytunwyd y byddai sesiwn gaeedig ar gael ar ddiwedd cyfarfodydd pe bai angen trafod gwybodaeth sy'n sensitif yn weithredol.

Penderfyniad: Y bwrdd yn cytuno ar gylch gorchwyl y Bwrdd Perfformiad Strategol.

3. Cymeradwyo cofnodion y Bwrdd Atebolrwydd Plismona o'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 28 Chwefror 2024 ac adolygu unrhyw gamau gweithredu sy'n heb eu cyflawni

Cytunwyd bod cofnodion cyfarfod y Bwrdd Atebolrwydd Plismona a gynhaliwyd ar 28 Chwefror yn wir ac yn gywir a bod yr holl gamau gweithredu wedi'u cwblhau ac nad oedd unrhyw gamau gweithredu heb eu cymryd.

4. Perfformiad yr heddlu

a) Adroddiad perfformiad yr heddlu

Cyflwynodd y CHTh y fframwaith perfformiad a manteision cael y fframwaith. Nododd y PG effaith gweithredu Niche a'r effaith ar y data a oedd ar gael. Nododd y CHTh ei fod yn awyddus i fersiwn gyhoeddus o adroddiad perfformiad yr heddlu fod ar gael yn y dyfodol.

Rhoddodd Pennaeth yr Uned Gwella Gwasanaethau, yr Uwch-arolygydd Dros Dro Louise Harries (LH), gyflwyniad i berfformiad yr heddlu yn erbyn y mesurau cenedlaethol a rhoddodd drosolwg o'r ddogfen a ddosbarthwyd. Cafwyd diweddariad ar y dangosfyrddau perfformiad a

grëwyd, sy'n ymwneud â throseddu a cham-drin domestig. Mae dangosfwrdd sicrhau ansawdd wedi'i greu hefyd. Mae rhaglen waith yn parhau ar gyfer creu'r gyfran nesaf o'r dangosfwrdd. Mynegodd y CHTH ei ddiolch i'r tîm perfformiad am eu gwaith yn creu'r dangosfyrddau.

Oherwydd gwaith sy'n parhau gyda'r Cynllun Heddlu a Throseddu a'r fframwaith perfformiad cysylltiedig, mae'r data yn Adroddiad Perfformiad yr Heddlu yn cyfateb i'r hyn a drafodwyd yn y Bwrdd Perfformiad Heddlu diweddaraf (a gynhaliwyd ar 16 Medi) ac mae'n adlewyrchu'r cyfnod hyd at Awst 2024.

Trafododd y bwrdd nifer y galwadau a gafodd yr heddlu o fewn y cyfnod adrodd. Cwestiynodd y CHTH a oedd y galw dros haf 2024 yn llai o'i gymharu â blynyddoedd blaenorol. Esboniodd y PG fod rhywfaint o alw y flwyddyn flaenorol wedi'i greu'n fewnol gyda gweithredu Niche a hefyd bod yr heddlu wedi delio â digwyddiadau a ddigwyddodd dros fisoedd lawer yn ymwneud â Gwesty Parc y Strade. Dywedodd y Prif Gwnstabl fod gan yr heddlu well adnoddau eleni gydag adnoddau ychwanegol o fewn Canolfan Gyfathrebu'r Heddlu.

Y dangosydd perfformiad allweddol ar gyfer galwadau 999 yw ateb 90% o fewn 10 eiliad. Mae prosesau mewnol yn adrodd bod cyflymder cyfartalog ateb yr heddlu dros y 12 mis diwethaf yn 3.4 eiliad. Fodd bynnag, mae data cenedlaethol, a adroddir gan BT, yn nodi bod cyflymder ateb cyfartalog yr heddlu yn 9.82 eiliad – mae'r amrywiad yn yr amseroedd a adroddwyd wedi cael ei gwestiynu ers peth amser lle mae'n amlwg bod rhywfaint o oedi / saib yn bodoli. Bydd gwelliannau i linell ffibr optig yr heddlu o gymorth i wella'r mater hwn, wrth i sicrwydd hefyd gael ei roi y bydd yr amrywiad hwn yn lleihau'n sylweddol gyda chyflwyniad y system deffoni newydd.

Y dangosydd perfformiad allweddol cenedlaethol ar gyfer galwadau 101 yw bod uchafswm o 10% yn rhoi'r gorau i alwadau. Er bod gwaith wedi digwydd i leihau'r gyfradd rhoi'r gorau i alwadau hon, mae'r heddlu yn dal i fod uwchlaw'r 10% gofynnol. Trafododd y bwrdd gyfradd y galwadau a wnaed i'r heddlu y rhoddwyd y gorau iddynt, a gofynnodd y CHTH pryd y byddai'r buddsoddiad yng Nghanolfan Gyfathrebu'r Heddlu yn cael ei wireddu'n llawn. Dywedodd y PG y bydd hyn yn digwydd fesul cam drwy gydol y flwyddyn, a'r cyntaf fydd y newidiadau mewn technoleg ac yna'r system trin galwadau a fydd yn digwydd yr wythnos ganlynol. Erbyn y gwanwyn nesaf, rhagwelir y bydd newidiadau gyda'r gweithlu wedi'u hymgorffori'n llawn gyda newidiadau i'r patrwm sifftiau a'r hollgymhwysedd. Dywedodd y PG, o ganlyniad i'r newidiadau o ran modelu y mae'r heddlu wedi'i wneud, erbyn y gwanwyn nesaf, y disgwylir i'r gyfradd rhoi'r gorau i alwadau fod yn gyson o dan 10%. Bydd yr

hyfforddiant hollgymhwysedd parhaus, y cynnydd mewn adnoddau, newidiadau rota a system deleffoni newydd o gymorth mawr i'r heddlu allu cyflawni'r dangosydd perfformiad allweddol hwn a darparu gwasanaeth cyflymach i'r rhai sy'n galw.

Trafododd y bwrdd amseroedd ymateb o fewn yr heddlu a'r amseroedd ymateb yn amrywio rhwng gwahanol ardaloedd. Mae amseroedd ymateb yn cael eu heffeithio gan ardal ddaearyddol a lle mae swyddogion wedi'u lleoli mewn perthynas â'r alwad a dderbynnir.

Dywedodd y DBG hefyd, yn ystod digwyddiad perfformiad diweddar, y gofynnwyd i'r Uwch-arolygydd dros Blismona Lifrog a Gweithrediadau Arbenigol i edrych ar y ffactorau sy'n effeithio ar amseroedd ymateb a chroesgyfeirio â gwaith sy'n mynd rhagddo gydag Adolygiad yr Heddlu.

Cam gweithredu: Adroddiad i'w rannu â'r CHTh ynghylch gwaith ar ffactorau sy'n effeithio ar amser ymateb ar ôl i'r heddlu gwblhau'r gwaith.

Diweddarodd y PG fod penderfyniad wedi'i wneud yng Nghyngor Cenedlaethol Penaethiaid yr Heddlu y byddai amser yn cael ei fesur o'r pwynt y mae Canolfan Gyfathrebu'r Heddlu yn derbyn yr alwad yn y dyfodol yn hytrach na'r pwynt y mae'r heddlu'n anfon swyddog. Bydd hyn yn cael ei fonitro dros y misoedd nesaf.

Trafododd y bwrdd uniondeb data troseddau a samplu mwy o gofnodion. Yn y chwarter diwethaf samplwyd 5000 o gofnodion. Yn y gorffennol maint y sampl oedd 80 i 100 o gofnodion y mis gan ganolbwyntio ar feysydd a ystyrir yn risg uchel neu feysydd lle mae'r heddlu wedi cael trafferth yn y gorffennol. Mae maint y sampl bellach yn ddibynadwy 95% o'r amser, a cheir lwfans ansicrwydd o 3% ar y naill ochr a'r llall. Yn flaenorol, nid oedd maint y sampl yn ystadegol ddibynadwy.

Mae ardaloedd plismona lleol yn cael adroddiadau adborth bob dydd a drafodir yn eu cyfarfodydd rheoli dyddiol fel y gellir mynd i'r afael â materion a dysgu yn ddyddiol. Yn ogystal â hyn trafodir yr adborth mewn cyfarfod rheoli wythnosol newydd dan gadeiryddiaeth y Prif Gwnstabl Cynorthwyol, cyfarfodydd sydd wedi'u gyflwyno i drefniadau llywodraethu'r heddlu. Ystyriodd y bwrdd y negeseuon ynghylch monitro perfformiad, ac mae hyn wedi bod yn ganolbwynt y digwyddiad Ymgysylltu a Disgwyliadau a bydd yn rhan o Sioeau Teithiol y Prif Swyddogion sy'n dechrau ym mis Ionawr.

Rhoddodd LH drosolwg o gofnodion ymddygiad gwrthgymdeithasol a dywedodd fod galwadau yn flaenorol yn ymddangos fel ymddygiad gwrthgymdeithasol ond y dylent fod wedi cael eu cofnodi fel trosedd. Mae

gwaith wedi'i wneud gyda Chanolfan Gyfathrebu'r Heddlu ac mae digwyddiadau bellach yn cael eu cofnodi'n gywir, a dyna pam mae nifer yr achosion o ymddygiad gwrthgymdeithasol wedi gostwng.

Ystyriodd y bwrdd yr wybodaeth yn ymwneud â meysydd blaenoriaeth y Prif Gwnstabl. Mae nifer y troseddau sy'n gysylltiedig â cham-drin domestig a gofnodwyd wedi aros yn sefydlog wrth arsylwi goramser a thrafododd y bwrdd gyfraddau canlyniadau'n ymwneud ag achosion o gam-drin domestig.

Trafododd y bwrdd gydymffurfedd âamera corff a'r defnydd o gamera corff a chyfraddau arestio sy'n cael eu cofnodi a'u monitro'n rheolaidd – rhaid cofio nad oes sail arestio ar gyfer pob digwyddiad o gam-drin domestig a gall y defnydd o gamera corff gael ei effeithio os yw swyddog wedi delio â'r digwyddiad dros y ffôn neu os oes sawl ymgais i geisio siarad â dioddefwr wedi digwydd. Caiff pob achos lle nad yw camera corff wedi'i actifadu neu lle nad yw arestiad wedi'i wneud, ei graffu i sicrhau bod rheswm cyfiawn yn cael ei gofnodi.

Ar hyn o bryd mae cwmni allanol yn cynnal arolygon dioddefwyr ar gyfer yr heddlu, yn casglu mewnwelediadau gan ddioddefwyr ymddygiad gwrthgymdeithasol, troseddau, cam-drin domestig a stelcio. Mae ymarfer sicrhau ansawdd mewnol hefyd yn cael ei gwblhau bob mis, gan sicrhau ein bod yn asesu ac yn dogfennu digonolrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd ymateb yr heddlu i gam-drin domestig yn systematig, gan ganolbwyntio ar sicrhau bod y polisi cam-drin domestig yn cael ei ddilyn, a bod ymchwiliadau o ansawdd uchel yn cael eu cwblhau. Mae canlyniadau'r arolygon dioddefwyr a sicrhau ansawdd yn rhoi cyfleoedd i nodi dysgu unigol a/neu sefydliadol, ac i sefydlu llinell sylfaen ar gyfer arferion gorau yn y dyfodol.

Trafododd y bwrdd nifer y troseddau treisio a throseddau rhyw eraill a gofnodwyd ac mae'r troseddau hyn wedi aros yn gyson dros amser. O ystyried natur y troseddau hyn nid oes unrhyw dueddiadau clir a rhaid ystyried adrodd hanesyddol.

Mae'r data'n tynnu sylw at y ffaith bod gan yr heddlu gyfraddau isel o gyhuddiadau am droseddau rhyw eraill yn benodol. Gan fod yn ymwybodol o hyn, gosododd y PG gamau gweithredu i ddeall hyn ymhellach, ac o ganlyniad cwblhawyd archwiliad trylwyr ar nifer sylweddol o 'droseddau rhywiol eraill' gan Uned Gwella Gwasanaethau'r Heddlu, ynddo nodwyd canfyddiadau allweddol a meysydd dysgu / gwelliant gofynnol, ac argymhellwyd camau gweithredu. Mae'r camau gweithredu hyn yn cael eu datblygu gan arweinwyr yr heddlu ac mae cynnydd tuag at y camau gweithredu hyn yn cael ei fonitro yn y cyfarfodydd llywodraethu perfformiad.

Fodd bynnag, gellir gweld darlun cadarnhaol wrth archwilio cyfraddau euogfarnau'r heddlu, yn enwedig cyfradd euogfarnau troseddau rhywiol a oedd ym mis Gorffennaf (hyd yn hyn yn y flwyddyn adrodd) yn 89.2%. Cwestiynodd y CHTh y nifer uchel o ddioddefwyr lle mae rhywun dan amheuaeth wedi'i enwi ac mae'r dioddefwr yn gwrthod cefnogi achos / tynnu cefnogaeth yn ôl, a'r hyn y mae'r heddlu'n ei wneud i fynd i'r afael â hyn. Ymatebodd y PGC gan ddweud bod gwaith yn parhau gyda'r heddlu, gan gynnwys adroddiadau craffu a sicrhau ansawdd bob wythnos.

Nododd y CHTh fod cymunedau yn ardal yr heddlu yn credu bod cyffuriau'n gyffredin yn y gymuned gyda llawer iawn o ddefnydd o gyffuriau hamdden. Gofynnodd y CHTh beth yw tueddiadau cyffredinol y farchnad o fewn y farchnad gyffuriau a pha bwysau sydd ar yr heddlu i ymateb i'r rhain?

Nid oes unrhyw duedd i'w gweld dros amser wrth archwilio nifer y troseddau masnachu cyffuriau a gofnodwyd.

Nid oes unrhyw duedd amlwg i'w gweld dros amser wrth edrych ar nifer yr achosion o fedd ar gyffuriau a gofnodwyd.

Dywedodd y PG y bydd yr Uwch-arolygydd Chris Neve, arweinydd atal, yn arwain cynllun peilot lle bydd yr heddlu'n gweithio gyda defnyddwyr cyffuriau hysbys i fynychu lleoliadau triniaeth, gan weithio'n rhagweithiol gyda nhw fel dull atal a phheidio ag aros nes bod trosedd wedi'i gyflawni cyn cynnig cymorth.

Cam gweithredu: Cyfarwyddwr Comisiynu i gysylltu â'r Uwch-arolygydd Chris Neve ynghylch cynllun peilot ar gyfer lleoedd triniaeth ar gyfer defnyddwyr cyffuriau.

O ran data stopio a chwilio, a nifer yr achosion o stopio a chwilio a gynhaliwyd dros amser, gellir gweld cynnydd enfawr ar ôl penodi'r Prif Gwnstabl ym mis Rhagfyr 2021. Y rheswm am hyn yw mwy o ffocws, craffu a rheoli perfformiad. Mae'r niferoedd hyn wedi lleihau ers hynny oherwydd gofynion cydbwysu a mwy o ffocws ar feysydd eraill. (Newidiodd Ymgyrch Cambrian ffocws uniongyrchol a defnydd adnoddau). Er bod y niferoedd wedi lleihau, mae'r gyfradd ddarganfod yn parhau'n uchel, gan ddangos tystiolaeth bod chwiliadau gwybodus o safon yn cael eu cynnal. Mae'n bwysig nodi bod nifer uchel o chwiliadau o unigolion ethnig leiafrifol yn unigolion nad ydynt yn byw yn ardal yr heddlu, ac o ganlyniad mae'n anodd cymharu â ffigurau poblogaeth y cyfrifiad. Rhoddwyd sicrwydd bod archwiliadau yn cael eu cwblhau ar gyfer 100% o bob achos stopio a chwilio lle nodwyd bod unigolyn ethnig leiafrifol wedi'i stopio a chwilio a/neu lle nad yw'r ethnigrwydd wedi'i gofnodi gan y swyddog. Mae hyn yn cynnwys arsylwi'r fideo camera corff a recordiwyd. Yn ogystal ag archwilio 100% o chwiliadau ar unigolion ethnig leiafrifol,

mae proses sicrhau ansawdd fisol ar waith ac yn cael ei chwblhau gan arolygwyr, i nodi meysydd dysgu ac arferion da.

Roedd y CHTh wedi cael diweddariad yn flaenorol yn y Bwrdd Plismona gan y Prif Arolygydd â chyfrifoldeb Rheoli Gwybodaeth ynghylch diogelu data, y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd a gofynion fetio ar yr heddlu.

Cododd y CHTh fod yr ymgyrch chwe gwall mwyaf cyffredin i wella ansawdd ffeiliau wedi bod yn rhedeg ers mis Chwefror 2024 ac nad ydynt eto wedi gweld gwelliant amlwg yn ansawdd y ffeiliau sy'n cael eu cyflwyno i'r Uned Cyfiawnder Troseddol, yn enwedig o ran y chwe problem uchaf. Dywedodd y Prif Gwnstabl eu bod nhw yn edrych ar ganoli, fel bod yr Uned Cyfiawnder Troseddol yn cwblhau'r holl ffeiliau. Mae capasiti yn broblem ar hyn o bryd ac mae'r Uwch-arolygydd Andrew Edwards yn gweithio ar gynnig ar hyn o bryd. Mae ymgyfarwyddo â'r system hefyd yn broblem yn seiliedig ar adborth swyddogion gan nad ydyn nhw'n cwblhau ffeiliau'n aml iawn. Mae'n ofynnol hefyd i ringylliaid sydd wedi cwblhau eu harholiadau bwrdd y llynedd gael eu hasesu ar adeiladu ffeiliau.

Cododd y CHTh fod yr heddlu wedi gweld cynnydd mewn troseddau chwilfrydig gan gynnwys troseddau byrgleriaeth a siop-ladrad a gofynnodd beth oedd yr hyn y mae'r heddlu'n ei wneud mewn ymateb. Diweddarodd y PG fod y timau plismona ac atal bro yn chwarae rhan wrth ddelio â'r troseddau hyn, a bod gan yr heddlu fenter atal siop-ladrad. Mae gan yr heddlu arweinydd ar faterion troseddau chwilfrydig a strategaeth bwrghleriaeth ac mae adolygiad o'r ymateb i siop-ladrad yn cael ei arwain gan brif uwch-arolygydd.

b) Perfformiad yr heddlu yn erbyn mesurau Troseddau a Phlisma Cenedlaethol

Ystyriodd y bwrdd y cyflwyniad ynghylch perfformiad yr heddlu yn erbyn mesurau troseddau a phlisma cenedlaethol. Nod y mesurau troseddau a phlisma cenedlaethol yw helpu i ganolbwyntio ymdrech ar flaenoriaethau cenedlaethol allweddol, caniatáu mesur perfformiad a helpu i ddangos gwerth am arian mewn plisma. Adroddir ar fesurau procsi yr heddlu ar gyfer y 12 mis diweddaraf (Hydref 2023 i Medi 2024) (oni nodir yn wahanol). Y cyfnod amser ar gyfer y set ddata gwaelodlin* yw Gorffennaf 2018 i Mehefin 2019.

Trafododd y bwrdd y ffigurau ynghylch lleihau llofruddiaethau a lladdiadau eraill, pedwar rhwng Hydref 2023 a Medi 2023 (4 o'i gymharu â 7) o'r wealodlin*.

Diweddarodd y Prif Gwnstabl Cynorthwyol fod gan yr heddlu strategaeth atal llofruddiaethau a bod yr heddlu wedi gweithredu proses o

adolygiadau cyflym o fethiannau newydd a methiannau trwch blewyn a phroses adolygu newydd.

Trafododd y bwrdd yr wybodaeth a ddarparwyd ynghylch lleihau troseddau yn y gymdogaeth

- Gostyngiad o 9.3% mewn bwrghleriaeth (preswyl) - gwaelodlin: 1,063 o'i gymharu â 964 yn y 12 mis hyd at fis Medi 2024.
- Cynnydd o 51.2% mewn dwyn o unigolion - gwaelodlin: 86 o'i gymharu â 130 yn y 12 mis hyd at fis Medi 2024.
- Gostyngiad o 44.1.4% mewn lladrad o gerbydau - gwaelodlin: 562 o'i gymharu â 314 yn y 12 mis hyd at fis Medi 2024.
- Lladrad (personol) cynnydd o 44.4% mewn lladrad (personol) - gwaelodlin: 63 o'i gymharu â 91 yn y 12 mis hyd at fis Medi 2024.
- Cynnydd o 366.7% mewn lladrad o gerbydau - gwaelodlin: 39 o'i gymharu â 182 yn y 12 mis hyd at fis Medi 2024.

Dywedodd y prif swyddogion nad oedd unrhyw themâu wedi'u nodi yn y ffigurau.

Cododd y CHTh fod lladrad beiciau modur cwad wedi'i godi fel pryder cymunedol ac yn broblem yn lleol.

Gofynnodd y CHTh, o safbwynt mesurau cenedlaethol, a oes unrhyw arwyddion y bydd y rhain yn newid gyda newid yn y llywodraeth. Mae'r PG yn datgan bod hyn yn debygol. Yn flaenorol, roedd y mesurau hyn yn rhan o system rhybuddio cynnar, felly pe bai heddlu yn allanolyn mewn dau o'r tri maes, byddai llythyr yn cael ei gynhyrchu gan yr arweinydd cenedlaethol i'r heddlu a byddai'n denu diddordeb gan y Swyddfa Gartref. Mae'r PG yn credu bod y system hon wedi diflannu o dan y llywodraeth newydd. Dywedodd y PG fod blaenoriaethau'r llywodraeth newydd yn wahanol, gan gynnwys haneru trais yn erbyn menywod a merched a lleihau troseddau â chyllyll.

Roedd trafodaeth ynghylch boddhad ymhlith dioddefwyr a data stopio a chwilio wedi digwydd yn gynharach yn y cyfarfod.

5. Trafodaeth ar fframwaith perfformiad y Cynllun Heddlu a Throseddau newydd

Hysbysodd y CHTh y bwrdd fod fframwaith perfformiad y Cynllun Heddlu a Throseddau yn cael ei ddatblygu a bydd adroddiad yn cael ei gyflwyno yn y fforwm hwn.

Cyhoeddir y Cynllun Heddlu a Throseddau yn gynnar yn 2025 ac mae wedi cael ei gytuno a'i gefnogi mewn cyfarfod diweddar gan y Panel Heddlu a Throseddau.

Diweddarodd y Pennaeth Gwasanaeth a Pherfformiad mai nod y fframwaith perfformiad yw casglu cyfres o fesurau gan yr heddlu, SCHTh a'r Gwasanaethau Comisiynu i ddangos yn erbyn yr amcanion yn y cynllun a lle bo modd defnyddio ffynonellau data sy'n bodoli eisoes. Y maes ffocws ar gyfer datblygu yw ymddiriedaeth a hyder y cyhoedd, sef gweledigaeth sylfaenol y cynllun. Mae gwaith yn parhau i gofnodi'r perfformiad hwn mewn ffordd wahanol. Y nod yw datblygu dogfen gyhoeddus sy'n galluogi'r comisiynydd i gyflawni ei swyddogaeth statudol o gyhoeddi gwybodaeth i ganiatáu i'r cyhoedd benderfynu ar berfformiad yr heddlu.

6. Trosolwg o wasanaethau a gomisiynwyd a chyllid grantiau

Rhoddodd y Cyfarwyddwr Comisiynu a Phartneriaeth (CCaPh) drosolwg a chyflwyniad i'r bwrdd ar gomisiynu a chyllido. Rhoddodd y cyflwyniad drosolwg o gyllideb gomisiynu 2024-2025 a'r gwasanaethau a gomisiynwyd sy'n cael eu hariannu ar hyn o bryd gan y SCHTh. Mae'r rhain yn cynnwys gwasanaethau camddefnyddio sylweddau yn Nyfed a Phowys, cyngorwyr annibynnol ar drais domestig a gwasanaeth ôl-drafod ar gyfer pobl ifanc coll. Darparodd y CCaPh rai manylion contractau ynghylch y tendr gwasanaethau camddefnyddio sylweddau, gwasanaeth dadfrifio pobl ifanc a chyfryngu. Holodd y CHTh sut y gallent wneud yr heddlu yn fwy ymwybodol o argaeledd y gwasanaethau a gomisiynwyd.

Cam gweithredu: Ffeithlun gwybodaeth ar wasanaethau a gomisiynwyd i'w rhannu gyda'r DBG, PGC ac LH.

Yna darparwyd trosolwg o'r cyllid grant allanol. Roedd hyn yn cynnwys diweddariad ar heriau dyletswyddau trais difrifol, Strydoedd Saffach a chyllid ar gyfer ardaloedd sydd â risg uchel o broblemau ymddygiad gwrthgymdeithasol.

Dywedodd y DBG fod diweddariadau cyllido Strydoedd Saffach yn cael eu darparu yn y Bwrdd Newid a Thrawsnewid.

Cam gweithredu: Diweddariadau cyllido ar gyfer y ddyletswydd trais difrifol a manau problemus ymddygiad gwrthgymdeithasol i'w cynnwys yn y Bwrdd Newid a Thrawsnewid yn y dyfodol.

Rhoddwyd diweddariad ar y mathau o gyllid sydd o dan gylch gwaith y comisiynydd a ble mae'r gwariant hwnnw'n canolbwyntio. Mae'r mathau o gyllid yn cynnwys cronfa'r comisiynydd, Deddf Enillion Troseddau a chronfa arloesi a sut mae cyllid wedi'i ddosbarthu ers 2022-2023 hyd yma.

Rhoddwyd diweddariad ar y Grŵp Prosiectau a Chyllido a sefydlwyd yn ddiweddar ym mis Medi 2024. Mae'r grŵp yn caniatáu i'r heddlu a

chydweithwyr SCHTh ddosbarthu cynigion, sicrhau eu bod yn cyd-fynd â strwythurau llywodraethu a chynnig llwybrau i geisio cyllid.

7. Unrhyw fater arall

Cododd y CHTh fod yr heddlu wedi gweld cynnydd mewn gwrthdrawiadau traffig ffyrdd a marwolaethau ar y ffyrdd o fewn ardal yr heddlu yn ystod y flwyddyn a chwestiynodd beth oedd ymateb yr heddlu i'r cynnydd.

O ran y gwrthdrawiadau traffig ffyrdd a'r marwolaethau, dywedodd y PG nad oedd unrhyw batrwm o ran y digwyddiadau yr oedd angen mynd i'r afael ag ef. Ailadroddodd y PG nad oedd y digwyddiadau ar y ffyrdd yn gysylltiedig ag ailstrwythuro uned plismona ffyrdd o fewn yr heddlu. Dywedodd y CHTh ei fod yn pryderu nad oedd unrhyw ffocws cynyddol gan sefydliadau, gan gynnwys Llywodraeth Cymru, ynghylch gwrthdrawiadau traffig ffyrdd a marwolaethau.

Cyfeiriodd y CHTh at drwyddedau gyrru haenog ar gyfer pobl ifanc, sef maes y mae'n edrych i fod yn rhan ohono.

Cadarnhaodd y CHTh ei ymrwymiad i'r rhaglen ysgolion o fewn ardal yr heddlu a byddai'n hoffi gweld y rhaglen ysgolion yn cael ei hadnewyddu a'i gwella o fewn yr heddlu. Cadarnhaodd y PG fod yr heddlu yn cefnogi hyn a chadarnhaodd eu hymrwymiad a'u cefnogaeth i'r rhaglen.

Awgrymodd y DBG y dylai cynrychiolwyr yr heddlu a'r SCHTh gyfarfod i drafod rhaglen ddiwygiedig yr ysgolion. Cadarnhaodd yr SCHTh fod cynrychiolydd o'r heddlu a'r SCHTh eisoes wedi dechrau trafodaethau.

Rhif y cam gweithredu	Crynodeb o'r camau gweithredu o gyfarfod 5 Tachwedd 2024	I'w symud ymlaen gan
SPB001	Adroddiad i'w rannu â'r CHTh ynghylch gwaith ar ffactorau sy'n effeithio ar amser ymateb ar ôl i'r heddlu gwblhau'r gwaith.	Yr Heddlu
SPB002	Cyfarwyddwr Comisiynu i gysylltu â'r Uwch-aroelygydd Chris Neve ynghylch cynllun peilot ar gyfer lleoedd triniaeth ar gyfer defnyddwyr cyffuriau.	SCHTh / yr Heddlu
SPB003	Ffeithlun gwybodaeth ar wasanaethau a gomisiynwyd i'w rhannu gyda'r DBG, PGC ac LH.	SCHTh
SPB004	Diweddariadau cyllido ar gyfer y ddyletswydd trais difrifol a mannau problemus ymddygiad gwrthgymdeithasol i'w cynnwys yn y Bwrdd Newid a Thrawsnewid yn y dyfodol.	Yr Heddlu

DIWEDD